IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD GWENER, 31 MAWRTH 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Jackie Parry(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Goddard a/ac Murphy |

11 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw rai.

12 : CAIS AM GYMERADWYO TRWYDDED SAFLE - BRASS BEETLE

| | |
|---|---|
| Ymgeisydd: | Lauren Anwar – darpar reolwr Brass Beetle<br>Mr Anwar – perchennog Brass Beetle<br>Mr Nic Strobel, K and A Property Ltd, yn cynrychioli Mr a Miss Anwar |
| Parti â Diddordeb: | Mr Paul Pan, Gwrthwynebwr. |

Y Cais

Derbyniwyd cais am Drwydded Mangre gan K and A Property Limited parthed The Brass Beetle, 11-13 Whitchurch Road, Caerdydd.

Cyflwynwyd y cais canlynol:

Manwerthu alcohol i'w yfed ar y safle ac oddi arno:
Dydd Llun i Ddydd Sul 11.00 tan 15.00 a 17.00 tan 23.00

Sylwadau Parti â Diddordeb

Siaradodd Mr Pan â’r Is-bwyllgor. Roedd Mr Pan yn teimlo bod hen ddigon o fangreoedd eisoes yn yr ardal yn ogystal â dwy archfarchnad sy’n gwerthu alcohol. Mae Mr Pan yn byw yn agos i’r fangre a bydd cwsmeriaid yn cerdded heibio ei dŷ; dywedodd ei fod wedi gweld ymddygiad gwrthgymdeithasol ac bu'r Heddlu yn cnocio ar ei ddrws i ofyn a yw wedi gweld digwyddiadau. Sylwodd fod y fangre’n agos iawn i ysgol ac ystyriodd fod angen meddwl yn arloesol ac nad oes angen i fangreoedd werthu alcohol er mwyn bod yn llwyddiannus.

Sylwadau’r Ymgeisydd

Siaradodd Mr Strobel â’r Is-bwyllgor. Nododd fod Miss Anwar wedi e-bostio Mr Pan ar 27 Mawrth, gan gytuno amodau'r heddlu; roedd Mr Pan yn fodlon ar hwn ond pwysleisiodd bod yr Heddlu ond yn gallu ymateb i ddigwyddiadau sy'n digwydd; ni allant eu hatal rhag ddigwydd.

Dywedodd Mr Strobel mai bwyty a chaffi yn unig fyddai’r fangre, byddai ganddi deledu cylch cyfyng a pholisi llym o ran gweini alcohol i bobl sy'n feddw. Y brif nodwedd fyddai ffwrn clai sy’n llosgi coed, ni fyddai unrhyw gwrw casgen a byddai’r poteli o gwrw a gwin yn yr ystod prisiau uwch; y nod oedd am awyrgylch ymlaciedig

ar gyfer teuluoedd a phobl broffesiynol ifanc. Ychwanegodd Mr Strobel, gan fod Mr Anwar hefyd yn berchen ar y fflatiau uwchben y fangre, ni fyddai eisiau gweld unrhyw aflonyddwch o'r fangre ac nid oedd preswylwyr y fflatiau wedi gwrthwynebu'r cais. Dywedwyd wrth yr Is-bwyllgor na fu unrhyw wrthwynebiad a dderbyniwyd gan yr ysgol ac yn wir roedd rhieni'r plant yn gleientiaid posibl; nid oedd yr oriau agor y gofynnwyd amdanynt yn gwrthdaro ag unrhyw oriau ysgol.

PENDERFYNWYD – Wedi ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Pholisi Datganiad Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu, cymeradwyodd yr is-bwyllgor y cais.

13 : CAIS AM ADOLYGU TRWYDDED SAFLE

| | |
|---|---|
| Ymgeisydd: | Dr Ruth McKee, wedi'i chynrychioli gan y Cynghorydd Fenella Bowden |
| Trwyddedai: | Punch Taverns Plc wedi'u cynrychioli gan Mr Phipps, Cyfreithwyr TLT<br>Gwion Iwan, Punch Taverns Plc<br>Claire Underhill, Rheolwr y New Inn |
| Partïon â Diddordeb | Y Cynghorydd Graham Hinchey |

Y Cais

Derbyniwyd cais am adolygu Trwydded Safle mewn perthynas â'r New Inn a ddelir gan Punch Taverns Plc.

Cafodd copi o'r cais ei amgáu gyda'r adroddiad. Dyma fanylion cryno:

> Honnir bod aflonyddwch i'r cymdogion, defnyddio/delio cyffuriau, sŵn a pharcio anghyfreithlon.

Ar ddechrau'r cyfarfod, dywedwyd wrth yr Is-bwyllgor fod yr ymgeisydd yn anhwylus a derbyniwyd cydsyniad ysgrifenedig er mwyn i'r Cynghorydd Fenella Bowden siarad ar ei rhan.

Sylwadau'r Ymgeisydd

Rhoddodd y Cynghorydd Bowden ddiweddariad ar y diweddariad a dderbyniwyd yn flaenorol gan Dr Ruth McKee, a darllenodd o ddatganiad a ddarparwyd gan Dr Ruth McKee. Darllennodd Councillor Bowden fod ardal awyr agored y New Inn mewn ffordd bengaead breswyl dawel, a achosodd aflonyddwch i gymdogion - mae Punch Taverns wedi gwneud rhywfaint o fân newidiadau trwy symud rhai byrddau ymaith.

Ychwanegodd fod y brif fynedfa wedi'i symud o'r blaen i'r ochr ble roedd y ramp mynediad i bobl anabl, roedd hyn yn agosach at y tai ac roedd defnyddwyr y dafarn yn fwy gweladwy ac yn glywadwy i'r cymdogion.

Roedd y rhwystr o berthi tal wedi'i symud ymaith gan Punch Taverns – rhoddwyd yno o ganlyniad i asesiad llygredd sŵn

Mae'r ymgeisydd yn dweud fod yr ardal awyr agored erbyn hyn yn cynnwys 66 bwrdd a greodd lawer o sŵn. Ychwanegodd eu bod yn dechrau gweld hen broblemau'n ailgodi – sŵn o ffenestri agored, parcio anniogel, pobl yn sefyllian y tu allan a'r a ymddangosai fel delio cyffuriau'n digwydd yng nghyffiniau'r tai.

Ychwanegodd fod cyfarfod wedi'i gynnal lle yr addawyd rhoi manylion cyswllt y landlord newydd ac nid oedd hyn wedi digwydd.

Nid oedd unrhyw gwestiynau am ddatganiad yr Ymgeisydd gan nad oedd yn bresennol.

Wedyn, siaradodd y Cynghorydd fel cynrychiolydd y preswylwyr lleol, a chytunodd â'r materion a'r pryderon a godwyd gan yr ymgeisydd. Sylwodd, fodd bynnag, fod llawer o waith wedi'i wneud gyda'r deiliad trwydded a chafodd hyn ei nodi gan yr Heddlu Ychwanegodd ei bod wedi gweld pobl yn y ffordd bengaead a bod modd clywed pobl sy'n defnyddio'r ardal awyr agored yn glywadwy o'r ffordd bengaead; gwnaed yn waeth trwy golli'r perthi. Mynegodd bryder dros y parcio anghyfreithlon yn Norton Avenue a Hampton Road a oedd wedi achosi digwyddiadau o wrthdaro gyda phreswylwyr. Dywedodd hi mai ar ôl 9pm yw'r adeg brysuraf.

Dywedodd y Cynghorydd Bowden ei bod yn ei ystyried yn amhriodol bod y Cynghorydd Hinchey wedi ymweld â'r Ymgeisydd yn ei chartref ac nid oedd wedi sôn eu fod yn mynd i fod yn bresennol yn y cyfarfod heddiw; ychwanegodd hi ei fod wedi ceisio barn mab 9 oed yr Ymgeisydd, a oedd yn annerbyniol.

Galwodd y Cynghorydd Bowden ar yr Is-bwyllgor i gefnogi cais Dr McKee am adolygiad o dan amcanion trwyddedu atal niwsans cyhoeddus ac amddiffyn plant rhag niwed.

<u>Cynrychiolydd y Trwyddedai</u>

Siaradodd Mr Phipps â'r Is-bwyllgor. Ystyriodd nad oedd y cais yn ymagwedd resymol neu briodol; roedd yn orsensitif ac yn anghymesur. Cydnabu nad oedd hanes y dafarn y wych ond ei bod wedi ailagor ar ôl cael ei hailwampio gyda rheolwyr newydd ac nad oedd tystiolaeth fod yr amcanion trwyddedu yn cael eu tanseilio. Ystyriodd y cefnogwyd hyn gan y ffaith bod dim preswylwyr eraill yn bresennol i wrthwynebu a bod dim awdurdodau cyfrifol wedi galw am adolygiad neu yn bresennol er mwyn gwrthwynebu.

Dywedodd Mr Phipps y galwyd am adolygiad pan oedd y dafarn wedi bod ar gau ers 8 mis ac ystyriwyd y cafodd ei ysgogi gan gais cynllunio i newid gweithredu'r ardal awyr agored. Nododd Mr Phipps fod y cynlluniau'n mynd yn groes i'r hyn a gytunwyd gyda'r preswylwyr yn y cyfarfod cyhoeddus ac ymddiheurodd am hyn yn helaeth, gan ddweud bod hyn yn gamgyfathrebu a'i fod erbyn hyn wedi'i gywiro; roedd ardal yr ardd erbyn hyn wedi'i lleihau gan chwarter.

Eglurodd Mr Phipps dros yr Is-bwyllgor nad oedd yr eiddo drws nesaf yn un preswyl ond yn garej gyda champfa uwch ei phen.

Holodd Mr Phipps ynglŷn ag a oedd yr ardal awyr agored, pan oedd ar stryd ochr ffordd brysur iawn.

Roedd y dafarn wedi'i hailagor ers mis Chwefror ac ni fu unrhyw broblemau, roedd gan y dafarn gynnig bwyd datblygol ac wedi gweini 100 cinio 3 chwrs ar Sul y Mamau; mae'r dafarn wedi'i hailwampio i gyd.

O ran nifer y byrddau y tu allan, dywedodd Mr Phipps mai 32 oedd hyn ac nid 66 fel yr awgrymwyd gan yr Ymgeisydd.

Cyfeiriodd Mr Phipps at yr honiad o ddelio cyffuriau ac ystyriodd na fyddai'r preswylwyr yn gallu eu gweld pe bai'r dynion wedi mynd i mewn i'r dafarn; aethant i gyfeiriad Ffordd Caerffili.

Ychwanegodd fod y berth wedi cael ei lleihau o ran maint, ychwanegodd hefyd fod cyflwyno perth uwch heb wneud unrhyw wahaniaeth i'r lefelau sŵn, yn wir roedden nhw wedi eu gwneud yn waeth oherwydd bod pobl yn defnyddio'r man allanol yn teimlo'n llai atalgar oherwydd nad oeddent yn gallu gweld y tai preswyl.

Dywedodd fod y landlord newydd yn byw uwchben y dafarn gyda'i theulu ifanc; bu'n rhedeg y dafarn gydag ymddygiad da ers mis Chwefror heb broblemau neu gwynion a bod rheolaeth dda yn allweddol i fodloni'r amcanion trwyddedu.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau ar Sylwadau'r Trwyddedai. Dywedodd y Cynghorydd Bowden, yn y cyfarfod cyhoeddus ym mis Medi, eu bod wedi trafod defnydd ochr y dafarn ac roedd yn aros am ymateb ar hyn o hyd.

Ystyriodd y Cynghorydd nad oedd cael defnydd man allanol yn rhan annatod o fusnes tafarn. Ystyriodd Mr Phipps ei fod e, ac roedd rhaid i'r rhai nad oedd ganddynt fan allanol ymdopi â chwsmeriaid yn mynd allan i'r palmentydd i ysmygu/cael awyr iach/ gwneud galwadau ffôn ac nid oedd hyn yn unol â hyrwyddo amcanion trwyddedu.

Dywedodd y Cynghorydd Bowden fod y dafarn yn ailagor wedi cael waethygu gan ddefnydd y fynedfa ar yr ochr a gofynnodd a allai'r fynedfa flaen gael ei defnyddio fel y brif fynedfa unwaith eto; nid oedd Mr Phipps yn derbyn bod y fynedfa ar yr ochr yn cael ei defnyddio fel mynedfa i bobl anabl o'r blaen.

Gofynnodd y Cynghorydd Bowden a oedd Mr Phipps yn derbyn bod rhagor o breswylwyr wedi gwrthwynebu trwy fod yn bresennol mewn cyfarfodydd cyhoeddus a llofnodi'r ddeiseb. Derbyniodd Mr Phipps hyn fel y'i datganwyd yn y papurau.

Gofynnodd y Cynghorydd Bowden a oedd unrhyw bosibilrwydd o wneud y berth yn dalach; dywedodd Mr Phipps na fyddent yn ei thorri ac y byddai'n tyfu dros amser.

<u>Sylwadau Partïon â Diddordeb</u>

Siaradodd y Cynghorydd Hinchey ger bron yr Is-Bwyllgor. Dywedodd y Cynghorydd Hinchey ei fod yn cynrychioli'r preswylwyr a'r busnesau lleol.
Ceisiodd egluro ei fod wedi cael ei wahodd dros y ffôn i dŷ'r ymgeisydd i siarad â hi a'i fod wedi ymweld â phreswylwyr eraill hefyd.

Ystyriodd fod y wybodaeth yn y cyflwyniad yn hanesyddol a bod llawer o waith wedi'i wneud bellach er mwyn mynd i'r afael â materion a dod o hyd i atebion; cafodd £330 mil ei wario ar ailwampio tafarn deuluol sy'n denu pobl leol o bob oedran. Gwrandawyd ar Breswylwyr a Chynghorwyr a gwnaed newidiadau. Roedd y Cynghorydd Hinchey wedi derbyn galwadau ffôn, e-byst a llythyrau gan bobl leol yn dweud faint o welliant yr oedd a bod y dafarn wedi newid yn llwyr er gwell.

Mewn perthynas â'r man allanol, ystyriodd y Cynghorydd Hinchey nad oedd yn wahanol i dafarn y Birchgrove, ychydig o gannoedd o lathenni i ffwrdd.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau ar Sylwadau'r Partïon â Diddordeb. Dywedodd y Cynghorydd Bowden ei bod wedi gwirio gyda Dr McKee a gadawodd Cynghorydd Hinchey gerdyn busnes trwy ei drws a dyna pam y galwodd hi ef yn ôl. Dywedodd yr ymgynghorydd cyfreithiol bod y mater hwn wedi'i drafod yn ddigonol erbyn hyn.

Gwahoddodd y Cadeirydd Gynrychiolydd yr Ymgeisydd i Grynhoi. Dywedodd y Cynghorydd Bowden ei bod yn bresennol ar gais Dr McKee ac i gynrychioli preswylwyr lleol; diolchodd i Punch Taverns am fod yn agored ac yn onest dros y 9 mis diwethaf; ystyriodd fod Dr McKee yn sensitif oherwydd y profiadau gwael gyda gyda landlordiaid a rheolwyr tafarndai blaenorol. Barn Dr McKee yw bod y fynedfa ar yr ochr yn broblem a bod ardal yr ardd yn parhau'n broblem oherwydd sŵn ac aflonyddwch. Dywedodd y Cynghorydd Bowden fod Hampton Road yn ffordd bengaead ac roedd yn cael ei haflonyddu.

Gwahoddodd Mr Phipps i gryhoi. Dywedodd Mr Phipps fod y materion y soniwyd amdanynt yn faterion niwsans preifat yn hytrach na niwsans cyhoeddus ac nid oedd yr amcanion trwydded yn cael eu tanseilio. Dywedodd na fyddai cau'r ardd yn briodol neu'n gymesur. Gofynnodd i'r Is-bwyllgor gefnogi'r trwyddedai trwy beidio â chymryd camau gweithredu/

PENDERFYNWYD – Bod yr Is-bwyllgor, wedi ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, yr Arweiniad yn Adran 182 a Datganiad Polisi Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu ei hun, cytunodd yr Is-bwyllgor i beidio â chymryd rhagor o gamau gweithredu.

14 : CAIS AM DRWYDDED PEIRIANT HAPCHWARAE

PENDERFYNWYD – cytuno ar y ceisiadau canlynol am drwyddedau i beiriannau hapchwarae mewn perthynas â mangreoedd trwyddedig.

I. Church Inn – Tŷ Glas Avenue, Llanisien, Caerdydd – Cais am amrywio'r Drwydded i Beiriannau Hapchwarae mewn Mangreoedd Trwyddedig i ganiatáu pedwar peiriant categori C machines.
II. Ar hyn o bryd mae'r drwydded yn caniatáu tri pheiriant categori C.

Ivor Davies, Ffordd Ddwyreiniol y Bont-faen, Treganna, Caerdydd – Cais i amrywio'r Drwydded i Beiriannau Hapchwarae er mwyn caniatáu chwe pheiriant categori C. Ar hyn o bryd mae'r drwydded yn caniatáu pum peiriant categori C.